**Rhagair y Cadeirydd**

Roeddwn wrth fy modd i gael fy ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ym mis Rhagfyr 2002. Mae'r Pwyllgor yn chwarae rôl hanfodol yn sicrhau bod y Cynulliad yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cydraddoldeb.

Roedd mynd ati i hyrwyddo cyfle cyfartal i holl bobl Cymru yn agwedd allweddol ar y weledigaeth ar gyfer llywodraeth ddatganoledig i Gymru, ac fe nodir hynny yn Neddf Llywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â gweithgareddau'r Pwyllgor o fis Hydref 2002 tan fis Mawrth 2003, ac y mae'n cynnwys crynodeb o waith y Pwyllgor yn ystod sesiwn cyflawn cyntaf y Cynulliad.

Er mis Hydref 2002, bu'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r adolygiad wedi bod yn un pellgyrhaeddol, ac rwy'n edrych ymlaen at gyflwyno ein hadroddiad a'n hargymhellion i'r Cynulliad. Rydym hefyd wedi ystyried ystod o faterion eraill, gan gynnwys cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer un corff dros gydraddoldeb, cynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus a datblygu cynlluniau cydraddoldeb hiliol. Ceir manylion pellach am y materion hyn, ynghyd â'r materion eraill y mae'r Pwyllgor wedi'u hystyried, yn yr adroddiad hwn.

Rwy'n ddiolchgar i'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Hawliau Anabledd a Fforwm LGB Cymru am y cyngor arbenigol y maent wedi'i ddarparu ar gyfer y Pwyllgor. Mae eu cyfraniadau wedi bod yn rhai pwysig iawn. Yn ogystal, hoffwn ddiolch i'r llu o bobl o ddaeth i siarad â'r Pwyllgor; mae eu cyfraniadau hwythau wedi bod yn werthfawr tu hwnt. Yn enwedig, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein hadolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r toreth o dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu o'r cyflwyniadau i'r Pwyllgor, o'r ymweliadau â safleoedd Sipsiwn-Deithwyr ac o'r ystod o weithgareddau eraill a gynhaliwyd wedi bod yn hynod o bwysig i gyfoethogi ein hadolygiad.

Mae'r Pwyllgor hwn, a'r Cynulliad cyfan, wedi cyflawni gwaith da wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac wrth wneud materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o'r prif lif. Serch hynny, mae llawer i'w wneud o hyd. Ar ddiwedd sesiwn gyntaf y Cynulliad, hoffwn ddymuno pob llwyddiant i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal nesaf wrth iddo barhau â'r gwaith o sicrhau cydraddoldeb go iawn i bawb yng Nghymru.

## CYRFF CYHOEDDUS SYDD YNGHLWM Â HYRWYDDO CYFLE CYFARTAL

***Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol***

27. Ar 17 Hydref 2002 bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn unol â Rheol Sefydlog 6.6. Y prif faterion oedd yn codi o'r adroddiad oedd:

- hyrwyddo'r ddyletswydd gyhoeddus o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000;
- meithrin partneriaethau gyda'r sector preifat;
- cysylltu â phob cymuned;
- parhau â'r gwaith o ad-drefnu'r Comisiwn yn fewnol.

***Comisiwn Hawliau Anabledd***

28. Ar 14 Tachwedd 2002, bu'r pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Hawliau Anabledd yn unol â Rheol Sefydlog 6.6. Y prif faterion oedd yn codi o'r adroddiad oedd:

- derbyn mwy o adroddiadau am wasanaethau cyngor oddi wrth unigolion;
- bod y tueddiad i ddod i gytundeb y tu allan i'r llys yn ei gwneud yn anodd datblygu cyfraith achos;
- ei bod yn bwysig gweithio mewn partneriaeth i sicrhau y bodlonir gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd; a
- ei bod yn bwysig cynnal gweithgareddau i godi proffil, a gwaith hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth.

***Comisiwn Cyfle Cyfartal***

29. Ar 12 Rhagfyr 2002, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn unol â Rheol Sefydlog 6.6. Y prif themâu oedd:

- cyflog cyfartal;
- trefniadau gweithio hyblyg;
- cybwysedd rhwng bywyd a gwaith i ddynion a menywod;
- hyrwyddo cydraddoldeb fel arfer busnes dda, a fydd yn arwain at sefydliadau iachach; a
- chynyddu nifer y menywod sydd mewn bywyd cyhoeddus.

**CYNIGION AR GYFER GWEITHGAREDDAU'R PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL NEWYDD**

31. Mae'r tabl canlynol yn cynnwys rhai awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal newydd:

| GWEITHGAREDD |
|---|
| Ystyried adroddiad a wnaed o dan Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru ynghylch sut y mae'r Cynulliad wedi cyflawni ei ddylestwyddau o ran hyrwyddo cyfle cyfartal yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf |
| Adroddiad yr adolygiad Sipsiwn-Deithwyr - dilyn hynt y gwaith |
| Dilyn hynt yr ymgyrch Cyflog Cyfartal wedi'r adroddiad dros dro a'r adroddiad strategaeth i'r dyfodol a gytunwyd gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal sy'n dod i ben ar 20 Mawrth 2003.  Cynnal yr ymgyrch am yr ail flwyddyn |
| Ystyried yr adroddiad 'Beyond the Bus Shelter - young women's choices in rural areas' - cais gan Gynulliad Merched Cymru |
| Cynnal archwiliad o Gynlluniau Cydraddoldeb Hiliol - cais gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2003 |
| Derbyn cyflwyniad gan y Comisiwn Archwilio ynghylch prif ffrydio cydraddoldeb yn eu gwaith archwilio - cais gan y Comisiwn Archwilio |
| Lloches - trafod pryderon ynghylch effaith y gofynion yn Neddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002 i hawlio lloches yn syth ar ôl cyrraedd y DU. |
| Yr Iaith Ddwylo Brydeinig - cyflwyniad i ddilyn y cyflwyniad a gafwyd yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2003 |
| Dilyn hynt "Young disabled people tell us about the best and worst in Wales" - Cytunodd y Pwyllgor i baratoi ymateb i'r adroddiad gan Weinidogion a phwyllgorau pwnc yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2003. |
| Cyflwyniad gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus - Mae'r Pwyllgor eisoes wedi penderfynu gwahodd y Comisiynydd i drafod ei hadroddiad blynyddol bob blwyddyn |
| Offeryn Polisi Cydraddoldeb |
| Cyllidebu sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau - cais gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| Ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb sy'n gysylltiedig â thegwch economaidd a chymdeithasol – cytunwyd yng nghyfarfod 20 Mawrth 2003 |
| Dilyniant i adroddiad Polls Apart ar etholiadau y Cynulliad yn 2003 – a gytunwyd yng Nghyfarfod 20 Mawrth 2003 |
| Ystyried dangosyddion cydraddoldeb yn yr adolygiad canol tymor o gronfeydd strwythurol – cytunwyd yng nghyfarfod 20 Mawrth |
| Adrodd yn ôl ar gyngres Rights into Action – cytunwyd yng nghyfarfod 20 Mawrth 2003 |
| Ystyried ymhellach gydbwysedd o ran y rhywiau mewn awdurdodau lleol – cytunwyd yng nghyfarfod 20 Mawrth 2003 |
| Ystyried ymhellach y cynnydd ar gael mwy o amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus – cytunwyd yng nghyfarfod 20 Mawrth 2003 |
| Ystyried y papur diwygiedig ar y gweithredu gan Lywodraeth y Cynulliad ar faterion yn ymwneud â phobl Lesbiaidd, Hoyw a Chyfunrywiol – cytunwyd yng nghyfarfod 20 Mawrth 2003 |

